



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwnewch Wahaniaeth gyda ni

Prentisiaid 2019

Canllaw Cyfweiliad

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu arferion gorau i'ch paratoi chi ar gyfer y rhan hon o'r broses ymgeisio.

llyw.cymru/prentisiaethau2019

Cyfweliad

Gall eich cyfweliad gynnwys gwahanol fathau o gwestiynau. Gall y rhain gynnwys cwestiynau am:

1. Eich profiad blaenorol

Mae'n debygol y bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau am unrhyw brofiad blaenorol sydd gennych chi sy'n berthnasol i'r swydd-ddisgrifiad.

Un ffordd dda o ateb y cwestiynau hyn yw trwy ddefnyddio'r dechneg STAR:

- Sefyllfa a Thasg**

Disgrifiwch y sefyllfa a'r dasg yr oedd angen i chi ei chyflawni

- Camau Gweithredu**

Dyma brif ran eich ateb. Amlinellwch yn glir bob cam gweithredu a gymeroch chi i ddatrys y sefyllfa. Canolbwyntiwch ar y camau y cymeroch chi eich hun, yn hytrach na chamau pobl eraill.

- Canlyniad**

Gorffennwch eich ateb gyda disgrifiad cryno o ganlyniad eich camau gweithredu.

2. Sut y byddech chi'n mynd i'r afael â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i'r rôl

Mae gan ein prentisiaid amrywiaeth o rolau ar draws y sefydliad. Gall y cyfwelydd ddisgrifio rhai tasgau y gofynnir i brentisiaid eu cyflawni. Meddyliwch sut y byddech chi'n ymateb i'r sefyllfa. Esboniwch wrth y cyfwelydd pa gamau y byddech chi'n eu cymryd a pham.

3. Beth rydych chi'n mwynhau ei wneud

Ceisiwch ymlacio a rhoi eich ymateb naturiol cyntaf sy'n dangos eich brwdfrydedd a'r hyn sy'n eich ysgogi chi.

Sut i baratoi?

Meddyliwch am eich profiad blaenorol a'r hyn rydych chi wedi mwynhau ei wneud ym mhob agwedd ar eich bywyd: eich addysg, profiad gwaith, eich swydd ran-amser, swydd arwain mewn cymdeithas / cymuned, oriau a dreuliwyd yn gwirfoddoli, cyfrifoldebau gofalu (gan gynnwys aelodau'r teulu) neu gyflawniadau ym myd chwaraeon. Myfyriwch ar y swydd-ddisgrifiad a gwnewch rywfaint o ymchwil ar y sefydliad. Meddyliwch am sut y gall eich cryfderau a'ch profiadau fod yn berthnasol i'r brentisiaeth.

Mae argraffiadau cyntaf yn cyfrif

Cofiwch gyfarch eich cyfwelydd gyda gwên ac ysgwydiad llaw cadarn. Cadwch gyswllt llygaid.

Byddwch yn barod

Ailddarllenwch y sgiliau allweddol ar y ffurflen gais cyn y cyfweiliad. Gwnewch eich ymchwil ar y sefydliad yn drylwyr.

Peidiwch â malu awyr

Atebwch gwestiynau yn iawn – hyd yn oed os ydych chi angen eiliad neu ddwy o dawelwch i feddwl am eich ateb – mae'n well dweud eich bod chi angen munud i feddwl am eich ateb na siarad yn rhy gyflym a difaru wedyn.

Pam ddylen ni eich cyflogi chi?

Rydym yn chwilio am – rhywun sy'n gallu gweithio mewn tîm, cyfathrebwr da – felly mae angen i chi feddwl am enghreifftiau o sut y gallwch chi ddangos y sgiliau hyn. Byddwch yn barod i siarad am eich gwybodaeth, profiad, galluoedd a sgiliau.

Byddwch yn gadarnhaol

Bydd eich cyfwelydd yn meddwl am sut beth fyddai gweithio gyda chi. Mae cyfwelwyr eisiau gweld rhywun sy'n mwynhau her ac sy'n frwdfrydig.

Cofiwch iaith y corff

Dim beth rydych chi'n ei ddweud sy'n bwysig, ond sut rydych chi'n ei ddweud. Yn ystod y cyfweiliad, peidiwch â phlygu eich breichiau a phwyso nôl nac edrych ar y llawr. Eisteddwch i fyny a cheisiwch gadw cyswllt llygaid da. Defnyddiwch eich dwylo a phwyswch ymlaen wrth wneud pwynt.

Gofynnwch am eglurhad o unrhyw beth rydych chi'n ansicr ohono

Os nad ydych chi'n siŵr o ystyr cwestiwn, gofynnwch am eglurhad. Ar y diwedd, gofynnwch i'r cyfwelydd a oes unrhyw beth arall y mae ef neu hi angen ei wybod. Peidiwch â bod ofn gofyn pryd rydych chi'n debygol o glywed a ydych chi wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

Dilynwch y tair egwyddor allweddol:

Paratoi - Ymarfer – Perfformio

Addasiadau Rhesymol

Rydym yn cynnig addasiadau rhesymol ym mhob cyfnod recriwtio. Rhwng wybod i ni cyn gynted â phosibl os oes unrhyw addasiad rydych chi ei angen er mwyn cwblhau eich cais neu mewn cyfweiliad.

Fel Cyflogwr, rydym yn cynnig **Cynllun Cyfweiliad Hyderus o ran Anabledd**.

Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i wneud cais i Lywodraeth Cymru, byddwn ni'n cynnig cyfweiliad i bobl anabl sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer y swydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad model cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd ag amhariadau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwmo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu ddarpar staff) berfformio hyd eithaf ei allu. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweiliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a diffinnir yn rhai hanfodol.

Os oes gennych chi amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych chi'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, a bod angen i chi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu'n dymuno trafod sut y byddwn yn eich cynorthwyo pe baech yn cael eich penodi, anfonwch e-bost i sharedservicehelpdesk@gov.wales

Fel enghraifft, gweler isod rai addasiadau yr ydym wedi'u cynnig yn y gorffennol. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn cynnwys pob amhariad, ac enghreifftiau ydynt yn unig; gwyddom fod anghenion unigol pawb yn wahanol ac efallai y bydd addasiadau eraill ar gael i fodloni eich anghenion chi. Dim ond os cawn wybod beth yw eich anghenion cyn ichi gyflwyno eich cais neu fynychu cyfweiliad y gallwn weithio gyda chi i drefnu addasiadau. Rydym wedi ymrwmo i gyflogi a datblygu gyrfaoedd pobl anabl ac rydym yn eich annog i siarad gyda ni am addasiadau os ydych eu hangen.

- **Awtistiaeth** – (Anhwylder ar y Sbectrwm Awstistig) - Efallai y byddwn yn cynnig asesiadau unigol yn hytrach nag asesiadau grŵp, efallai y gellir ail-eirio cwestiynau er mwyn defnyddio iaith briodol.
- **Nam ar y Golwg** – Gellir gofyn am geisiadau mewn Braille a gellir darparu arweiniad ar gyfer cyfweiliad.
- **Enseffalomyelitis Myalgig (M.E.) / Syndrom Blinder Cronig (CFS)** – Gellir cynnig amser addas ar gyfer cyfweiliad i weddu i anghenion yr unigolyn.
- **Byddardod / Nam ar y Clyw** – Gallwn drefnu i ddehonglwr fynychu'r cyfweiliad.
- **Dyslecsia** – Gellir rhoi mwy o amser yn ystod y cyfweiliad neu ar gyfer unrhyw asesiad. Hefyd, gellir geirio'r cais mewn modd a fydd yn sicrhau ei fod yn glir ac yn llawn gwybodaeth.
- **Nam Symudedd ac Anghenion Mynediad** Gellir darparu ar gyfer y rhain hefyd.